**Y Gyfarwyddiaeth Addysg**
**Education Directorate**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Lleol
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol
Cyfarwyddwyr Consortia Addysg Rhanbarthol

30 Mehefin 2021

Annwyl Gyfeillion

**Gŵyl banc ychwanegol yn 2022**

Fel y gwyddoch, mae'n debyg, bydd gŵyl banc ychwanegol i'r DU ddydd Iau 2 Mehefin 2022 i ddathlu Jiwbilî Blatinwm y Frenhines. Mae hyn yn ychwanegol at ddydd Gwener 3 Mehefin, gan wneud penwythnos pedwar diwrnod ar gyfer y dathliadau.

Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi cytuno i ddiwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 i ganiatáu ar gyfer y diwrnod gŵyl banc ychwanegol. Bydd Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021 hefyd yn gwneud yr un ddarpariaeth.

Yn ymarferol, gan fod y diwrnod hwn yn ystod gwyliau'r Sulgwyn, mae hyn yn golygu y gall ysgolion gymryd diwrnod ychwanegol o'u dewis i ffwrdd yn ystod blwyddyn ysgol 2021-22. Gall ysgolion ddewis pa bryd i gymryd y diwrnod hwnnw, mewn cytundeb â'r awdurdod lleol. Er y byddai'n arfer dda i weithio gydag ysgolion ac awdurdodau cyfagos i fod yn gyson, ni fydd unrhyw rwymedigaeth i gysoni'r diwrnod hwn ar draws yr awdurdod lleol nac ar draws Cymru. Disgwyliwn i ysgolion ystyried cynlluniau'n ofalus a sicrhau bod rhieni'n cael cymaint o rybudd â phosibl.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â SMED2@llyw.cymru.

Yn gywir



Huw Owen
Dirprwy Gyfarwyddwr
Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre
0300 0604400